# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd o 4 i 11 Ionawr 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

2 Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a’r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

3 Cwestiynau i’r Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes

3 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

3 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Amgylchedd

4 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### System Anrhydeddu Cenedlaethol Cymreig

**Dafydd Wigley:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru sefydlu anrhydedd cenedlaethol Cymreig i gydnabod cyfraniad eithriadol gan unigolion er lles eu cymdeithas neu'r genedl, i'w gyflwyno dim ond i ychydig o unigolion bob blwyddyn, yn agored i enwebiadau gan y cyhoedd ac i'w cadarnhau drwy bleidlais y Cynulliad? (WAQ8673)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Nid yw materion anrhydeddu yn cael eu datganoli i'r Cynulliad dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ond, yn hytrach, cânt eu neilltuo ar gyfer y Goron. Mae system anrhydeddu y DU yn annog y cyhoedd yn y DU gyfan i enwebu pobl sydd wedi rhoi gwasanaeth eithriadol ac mae gan Gymru gynrychiolaeth dda yn y rhestrau anrhydeddu a gyhoeddir ddwywaith y flwyddyn.

## Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Gwneud A40 yn Ffordd Ddeuol (Manteision i Economi Sir Benfro)

**Alun Cairns:** Pa asesiad y mae Dirprwy Brif Weinidog Cymru wedi'i wneud o'r manteision i economi Sir Benfro o droi'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr yn ffordd ddeuol? (WAQ8701)

**Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Michael German):** Gwnaed asesiad fel rhan o'r astudiaeth aml-fodd y cyflwynodd yr Ysgrifennydd dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth bryd hynny adroddiad arni ar 16 Chwefror. Mae copïau o adroddiad yr astudiaeth yn y llyfrgell.

### Gofynion Nwy (Sir Benfro a De Cymru)

**Alun Cairns:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar biblinell nwy i Sir Benfro i gynnal busnes? (WAQ8706)

**Alun Cairns:** Pa sylwadau mae Michael German wedi'u derbyn ynghylch darparu piblinell nwy i wasanaethu Sir Benfro? (WAQ8707)

**Alun Cairns:** Beth yw manylion astudiaeth Transco o ofynion nwy de Cymru, a gomisiynwyd ym 1998 ac a gyflwynwyd i'r Cynulliad ym 1999? (WAQ8708)

**Alun Cairns:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd yn sgîl astudiaeth Transco o ofynion nwy de Cymru, yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cynulliad yn 1999? (WAQ8710)

**Alun Cairns:** Pa gamau mae Michael German yn bwriadu eu cymryd yn sgîl astudiaeth Transco o ofynion nwy de Cymru, yn yr adroddiad a gyflwynwyd yn 1999? (WAQ8711)

**Michael German:** Comisiynwyd yr astudiaeth o gyflenwadau nwy yn dilyn cytundeb rhwng y Swyddfa Gymreig, Awdurdod Datblygu Cymru, Transco ac awdurdodau lleol ym mis Tachwedd 1997 ar ôl cynnal trafodaethau i ystyried sut y gellid gwella'r cyflenwad nwy i dde Cymru, gan gydnabod pa mor bwysig yw cryfhau cysylltiadau nwy i dde-orllewin Cymru. Pasiwyd drafft cyntaf yr astudiaeth i'r Cynulliad yn 1999 ac ers hynny lluniwyd sawl drafft arall. Yr ydym wedi cynnal sawl cyfarfod gyda Transco a'i ymgynghorwyr, sydd yn dal i fod â materion sylfaenol y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy. Yr ydym yn siomedig y cafwyd problemau wrth geisio llunio adroddiad boddhaol. Yr ydym wedi cymryd camau cadarn i ddatrys y sefyllfa hon ac mae Awdurdod Datblygu Cymru a Fforwm Economaidd De Orllewin

Cymru, yr ysgrifennais atynt ynghylch y mater hwn y mis diwethaf, wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r datblygiadau. Yr ydym yn dal i bwyso ar Transco, rheolwr prosiect yr astudiaeth, i ddatrys y mater hwn yn gyflym.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Pwyllgorau Addysg Lleol (Cyfarfodydd gyda Chynrychiolwyr Rhieni/Llywodraethwyr)

**Alun Cairns:** Pa mor aml y mae'r Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes yn argymell y dylai pwyllgorau addysg lleol gyfarfod cynrychiolwyr rhieni/llywodraethwyr? (WAQ8726)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Yn unol â Rheolau (Cynrychiolwyr Rhieni Lywodraethwyr) (Cymru) Addysg 1999, yr oedd yn rhaid i bob awdurdod lleol drefnu etholiadau a phenodi cynrychiolwyr rhieni lywodraethwyr erbyn 1 Mehefin 2000 i bwyllgorau a benodwyd i ymgymryd â swyddogaethau addysgol statudol yr awdurdod. Fodd bynnag, nid oes yn rhaid i'r awdurdod ddarparu llefydd ar bwyllgor sydd yn delio ag addysg pan fo'n cael ei archwilio gan bwyllgor arall sydd yn cynnwys cynrychiolwyr rhieni lywodraethwyr. Mater i bob awdurdod unigol yw penderfynu pa mor aml mae'r pwyllgorau'n cyfarfod, ond yr wyf yn disgwyl iddynt gyfarfod o leiaf unwaith y tymor.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Cost Rhaglen Ymwybyddiaeth am Gydraddoldeb

**David Davies:** Beth fydd cost rhaglen ymwybyddiaeth am gydraddoldeb y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Aelodau? (WAQ8704)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Hyd yma, yr ydym wedi gwario £1,000, ar baratoi deunyddiau yn bennaf. Nid oes gennyf amcangyfrif o'r costau yn y dyfodol ond byddant yn cael eu talu o'r cronfeydd a neilltuwyd ar gyfer codi ymwybyddiaeth yn y Cynulliad, o Gronfa Buddsoddi i Foderneiddio Cabinet y Cynulliad a glustnodwyd i'r Cynulliad fel rhan o'r rhaglen Rhoi Llywodraeth Well ar Waith.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Amgylchedd

### Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (Mapio'r Rhannau o Gymru sydd â Hawliau Mynediad)

**Glyn Davies:** Beth a ragwelir fydd cyfanswm costau mapio'r rhannau hynny o Gymru y bydd y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn rhoi hawl i bobl gerdded drwyddynt? (WAQ8722)

**Y Gweinidog dros Amgylchedd (Sue Essex):** Bydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gyfrifol am fapio'r tiroedd y caniateir mynediad iddynt, fel a ddiffinnir yn y Ddeddf, yng Nghymru. Mae'n rhagweld y bydd yn costio tua £1.7 miliwn dros bedair blynedd ariannol hyd at, a chan gynnwys, 2003-04 er mwyn digido, ymgynghori a chyhoeddi mapiau mynediad ar gyfer Cymru.

### Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (Awdurdodau Lleol)

**Glyn Davies:** Beth a ragwelir fydd cyfanswm cost y gwaith y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ei wneud oherwydd i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ddod yn gyfraith gwlad?(WAQ8723)

**Sue Essex:** Yr ydym yn rhagweld y bydd cost ychwanegol o tua £2.4 miliwn i awdurdodau lleol yng Nghymru. Bydd rhan helaeth o'r gost yn ymwneud â gwaith hawliau tramwy.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Trosglwyddo Presgripsiynau yn Electronig

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ar hawl cleifion i fynd â'u presgripsiwn i fferyllfa o'u dewis ac ar y cwestiwn a ddylai presgripsiynau gael eu cyfeirio i fferyllfa gan feddyg teulu neu unrhyw system electronig pan gyflwynir system o drosglwyddo presgripsiynau yn electronig rhwng meddygon teulu a fferyllfeydd yng Nghymru? (WAQ8705)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Ar hyn o bryd, gall cleifion gael eu presgripsiynau NHS mewn unrhyw fferyllfa sydd ar gontract gyda'r NHS o fewn y Deyrnas Unedig. Nid oes cynlluniau i newid y trefniadau hyn.

### Cynllun Peilot i Drosglwyddo Presgripsiynau yn Electronig yng Nghymru

**Alun Cairns:** Mae'r Adran Iechyd yn Lloegr ar fin cychwyn ar gynllun peilot i drosglwyddo presgripsiynau yn electronig rhwng meddygon teulu a fferyllfeydd. O ystyried yr anawsterau cyfredol wrth brosesu presgripsiynau i'w prisio yng Nghymru, pryd fydd cynlluniau peilot yn cael eu cyflwyno yng Nghymru er budd cleifion a meddygon teulu gan roi gwybodaeth ar iechyd i'r awdurdod prisio ac awdurdodau iechyd Cymru? (WAQ8712)

**Jane Hutt:** Rhaid cael cynlluniau peilot er mwyn gweld a fyddai'n fuddiol i ni sefydlu system gadarn a all gynnig y buddiannau hyn, a mwy, am gost rhesymol. Mae'r broses o gynllunio, profi a gweithredu system ar raddfa lawn yn debyg o gymryd oddeutu pedair i bum mlynedd. Nid ydym, felly, yn meddwl bod cynlluniau peilot yn ateb ymarferol i'r anawsterau presennol gyda phrisio presgripsiynau. Er hynny, yr ydym yn ymwybodol o'r buddiannau hirdymor posibl ac yr ydym wedi cael trafodaethau rhagarweiniol gyda darpar gyflenwyr. Gwneir penderfyniad ynghylch a ddylid sefydlu cynlluniau peilot ar wahân yng Nghymru dan ein cynlluniau Buddsoddi i Arbed yng ngoleuni blaenoriaethau cystadleuol.

### Teitlau a Ddiogelir mewn Proffesiynau sydd yn gysylltiedig â Meddygaeth

**David Melding:** Pa asesiad a wnaethpwyd o oblygiadau'r teitlau a ddiogelir mewn proffesiynau sydd yn gysylltiedig â meddygaeth pan fo'r teitlau hynny yn Gymraeg? (WAQ8714)

**Jane Hutt:** Diben y cyngor proffesiynau iechyd newydd, a fydd yn disodli'r Cyngor dros Broffesiynau Atodol mewn Meddygaeth, yw amddiffyn y cyhoedd yn well pan fyddant yn derbyn gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

Un o gynigion allweddol y rheolau yw gwarchod teitl cyffredin y 12 proffesiwn fydd yn cael eu rheoli (therapyddion celfyddydol, meddygon traed, gwyddonwyr clinigol, dietegwyr, technegwyr labordai meddygol, therapyddion galwedigaethol, orthoptyddion, parameddygon, ffisiotherapyddion, prosthetwyr, orthotwyr, radiograffwyr, a therapyddion lleferydd a iaith).

Ar hyn o bryd, mae Deddf Proffesiynau Atodol mewn Meddygaeth 1960 yn gwahardd defnyddio'r teitl 'therapydd celfyddydol cofrestredig' i'r rhai sydd wedi eu cofrestru dan y Ddeddf. Bydd y cynigion newydd yn gwarchod y teitl cyffredin (therapydd celfyddydol ayb). Gyda rhai proffesiynau, gellid gwarchod dau deitl, er enghraifft ffisiotherapydd a therapydd corfforol, neu geiropodydd a meddyg traed.

Bydd y teitlau cyfatebol yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ac yn cael eu gwarchod yn yr un modd. Bydd y proffesiynau dan sylw yn cytuno ar gyfieithiadau'r teitlau.

### Cyfleusterau Seicogeriatrig (Addasrwydd ar gyfer Pobl Ifanc)

**David Melding:** A wnaiff Jane Hutt ystyried a yw cyfleusterau seicogeriatrig yn addas ar gyfer pobl ifanc sydd yn dioddef o dementia yng ngoleuni'r cynnydd yn nifer yr achosion o vCJD yn yr ystod oedran hwnnw? (WAQ8719)

**Jane Hutt:** Nifer gymharol fach o achosion vCJD a welwyd yng Nghymru ac felly mae'r farn ynghylch gofal yn dal i ddatblygu. Byddem yn disgwyl i'r gwasanaethau edrych ar ôl achosion o'r fath gyda cymaint o sensitifrwydd ag sydd yn bosibl. Dylent ystyried oedran y person ac adlewyrchu safbwyntiau'r teulu ynghylch ei h/anghenion gofal. Byddai hyn yn cynnwys cydbwyso gofynion lleol a gofynion gwasanaethau arbenigol. Yr wyf yn cytuno y dylem fod yn ymwybodol o'r sialensiau newydd y mae'r clefyd yn eu gosod a rhaid i ni fod yn barod i fabwysiadu ac addasu arferion cydnabyddedig o sawl maes arbenigol.

### Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (Protocol 12)

**David Melding:** A yw'r weinyddiaeth yn cefnogi egwyddorion Protocol 12 y Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol? (WAQ8724)

**Jane Hutt:** Yr ydym wedi ymrwymo'n llwyr i egwyddorion y Gynhadledd Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'u hymgorfforwyd i gyfraith y DU gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mater i'r Llywodraeth yw unrhyw orchmynion a wneir dan y Ddeddf er mwyn rhoi protocol mewn grym, a byddai'n dilyn cadarnhau'r protocol gan y Deyrnas Unedig. Nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau datganoledig yn hyn o beth.